# Adroddiadau ariannol i gyfarfodydd misol aelodau'r Bwrdd

Social Business Wales
Busnes Cymdeithasol Cymru

Wales Co-operative Centre
Canolfan Cydweithredol Cymru

# Mae pedwar cyfnod amser ar gyfer cynhyrchu adroddiadau cyfnodol da: wythnosol, misol, chwarterol a blynyddol

## 1. Datganiad Incwm/Treuliau neu 'Ddatganiad Elw a Cholled'

| | Gwirioneddol | Amcangyfrifedig | Amrywiant | Rheswm |
|---|---|---|---|---|
| **Income** | | | | |
| **Gwerthiannau** | 4,000.00 | 3,200.00 | 800.00 | Gwerthiannau'n fwy nag y'u rhagwelwyd, pam? |
| **Grantiau** | 3,000.00 | 8,000.00 | - 5,000.00 | Cais am grant yn aflwyddiannus |
| **Rhoddion** | 500.00 | - | 500.00 | Rhodd annisgwyl |
| **Cyfanswm yr Incwm** | **7,500.00** | **11,200.00** | **- 3,700.00** | |
| **Gwariant** | | | | |
| **Deunyddiau** | 1,000.00 | 800.00 | - 200.00 | Angen deunyddiau i ateb y galw. |
| **Cyfleustodau** | 650.00 | 600.00 | - 50.00 | Mwy o drydan yn cael ei ddefnyddio ar wresogi |
| **Rhent** | 700.00 | 700.00 | - | Cytundeb rhentu sefydlog |
| **Cyfanswm y Gwariant** | **2,350.00** | **2,100.00** | **- 250.00** | |
| | | | | |
| **Gwarged / Colled** | **5,150.00** | **9,100.00** | **- 3,950.00** | |

Ar yr wyneb, mae'r canlyniad yn edrych yn negyddol, ond pan fyddwch yn dileu'r cais aflwyddiannus am grant a'r rhodd annisgwyl, mae'r agwedd fasnachu'n gadarnhaol. Enillwyd £550 yn fwy ar weithgareddau masnachu na'r disgwyl.

Mae pob sefydliad yn wahanol ac nid oes un templed sy'n addas i bawb. Fodd bynnag, y rheol sylfaenol gyffredinol yw, cymharwch berfformiad **gwirioneddol** yn erbyn perfformiad amcangyfrifedig, ac yna trafodwch pam mae amrywiant a cheisiwch ddysgu oddi wrth hynny.

Gall perfformiad **amcangyfrifedig** fod yn seiliedig ar ymchwil i'r farchnad, ar berfformiad wedi'i gyllidebu neu gyfuniad o ddata hanesyddol ac ymchwil i'r farchnad.

## 2. Sefyllfa Hylifol a Lefelau Rhestr Stoc

Yn syml, mae angen i chi wybod eich sefyllfa hylifol, pa arian ffisegol sydd gennych, beth sydd yn eich cyfrif(on) banc, a beth sydd gennych wedi'i fuddsoddi. Hefyd, pa stoc sydd gennyf y gellir ei werthu er mwyn ei droi'n arian?

## 3. Cyfrifon sy'n Daladwy

I bwy y mae arnoch chi arian a phryd y mae'n rhaid ei dalu? Ydych chi wedi prynu ar gredyd? A oes gennych yr arian parod ar gael i dalu hyn?

## 4. Cyfrifon Derbyniadwy

Pwy sy'n ddyledus i chi? Pryd (os o gwbl) ydych chi'n debygol o'i dderbyn? Pwy sydd angen i chi fynd ar eu holau?

## 5. Datganiad Llif Arian

Diweddarwch eich datganiad llif arian yn rheolaidd, defnyddiwch ef ar gyfer cynllunio ariannol – mae arian parod yn hollbwysig i unrhyw sefydliad!

I'r rhai sydd ag ychydig mwy o brofiad dylent fod yn edrych ar:

- Ddangosyddion Perfformiad Allweddol
- Metrigau
- Targedau
- Cymarebau
- Maint yr Elw Gros
- Maint yr Elw Net, etc.

**Canllawiau pellach:**

https://businesswales.gov.wales/starting-up/cy/rheoli-eich-arian/rhagamcan-llif-arian

Ariennir Busnes Cymdeithasol Cymru gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Llywodraeth Cymru. Fe'i cyflwynir gan Ganolfan Cydweithredol Cymru ac mae'n rhan o deulu Busnes Cymru.

**Canolfan Cydweithredol Cymru**
**Y Borth**
**13 Ffordd Beddau**
**Caerffili**
**CF83 2AX**

Mae Canolfan Datblygu a Hyfforddi Cydweithredol Cymru Cyfyngedig (yn masnachu fel Canolfan Cydweithredol Cymru) yn gymdeithas gofrestredig dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, rhif 24287 R.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn Gymraeg. Mae ffurfiau eraill, megis mewn print bras neu braille, ar gael ar gais.

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Saesneg neu Gymraeg a'n nod yw darparu safon gyfartal o wasanaeth yn y ddwy iaith.

Busnes Cymru | Business Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund